TACTEG CYMRAEG

**CWESTIYNAU CWIS:**

# Creu Stori – Profwch eich hunain!

1: Darllenwch y brawddegau yma a phenderfynwch pa fath o stori sy'n cael ei hysgrifennu. Rhowch y llythyren sy'n cyfateb yn y blwch: -

**A** - Stori ddirgelwch

**B** - Stori wyddonias

**C** - Stori tylwyth teg

**CH** - Stori draddodiadol

☐ Stori sy'n creu awyrgylch a disgrifio anturiaethau.

☐ Stori am y dyfodol.

☐ Stori sy'n seiliedig ar hen chwedl.

☐ Stori am fyd hud a lledrith.

2: Mae defnyddio berfau diddorol yn bwysig iawn ym mhob stori. Darllenwch y darnau nesaf o ddeialog a dewiswch y berfau a'r adferfau gorau o'r rhestr.

"Dydw i ddim am dy weld yn gweiddi'r atebion allan eto!" **mynnodd / dywedodd / gofynnodd / sgrechiodd / sibrydodd / bloeddiodd** Miss Huws yn **flin / hapus / gwrtais / groch / dawel / gas**.

"Shh!" **mynnodd / dywedodd / gofynnodd / sgrechiodd / sibrydodd / bloeddiodd** Dai yn **flin / hapus / gwrtais / groch / dawel / gas** gan roi ei fys ar ei geg.

"Hwre!" **mynnodd / dywedodd / gofynnodd / sgrechiodd / sibrydodd / bloeddiodd** Mam-gu yn **flin / hapus / gwrtais / groch / dawel / gas** wrth i Gymru sgorio cais arall.

"Ga i fynd allan i chwarae?" **mynnodd / dywedodd / gofynnodd / sgrechiodd / sibrydodd / bloeddiodd** Arwel yn **flin / hapus / gwrtais / groch / dawel / gas.**

"Dw i wedi bod yn y pwll nofio bore 'ma," **mynnodd / dywedodd / gofynnodd / sgrechiodd / sibrydodd / bloeddiodd** Elin yn **flin / hapus / gwrtais / groch / dawel / gas**.


©BBC

3: Mae'n bwysig bod cymeriadau diddorol yn eich stori. Cyn cychwyn ysgrifennu stori, mae'n syniad da i feddwl am y cymeriadau'n ofalus. Darllenwch y rhestr yma a dewiswch y 4 peth mwyaf pwysig i'w cofio wrth ysgrifennu stori.

- ☐ Enw y cymeriad
- ☐ Lliw wal ystafell wely y cymeriad
- ☐ Ymddangosiad
- ☐ Lliw gwisg nofio
- ☐ Personoliaeth
- ☐ Enw y gath
- ☐ Gweithredoedd
- ☐ Deiet
- ☐ Hoff greision
- ☐ Dyddiad geni


©BBC

# TACTEG CYMRAEG

## ATEBION CWIS:
## Creu Stori – Profwch eich hunain!

1: Darllenwch y brawddegau yma a phenderfynwch pa fath o stori sy'n cael ei hysgrifennu. Rhowch y llythyren sy'n cyfateb yn y blwch: -

**A** - Stori ddirgelwch

**B** - Stori wyddonias

**C** - Stori tylwyth teg

**CH** - Stori draddodiadol

| | |
|---|---|
| **A** | Stori sy'n creu awyrgylch a disgrifio anturiaethau. |
| **B** | Stori am y dyfodol. |
| **CH** | Stori sy'n seiliedig ar hen chwedl. |
| **C** | Stori am fyd hud a lledrith. |

2: Mae defnyddio berfau diddorol yn bwysig iawn ym mhob stori. Darllenwch y darnau nesaf o ddeialog a dewiswch y berfau a'r adferfau gorau o'r rhestr.

"Dydw i ddim am dy weld yn gweiddi'r atebion allan eto!" **mynnodd** Miss Huws yn **flin** .

"Shh!" **sibrydodd** Dai yn **dawel** gan roi ei fys ar ei geg.

"Hwre!" **bloeddiodd** Mam-gu yn **groch** wrth i Gymru sgorio cais arall.

"Ga i fynd allan i chwarae?" **gofynnodd** Arwel yn **gwrtais** **.**

"Dw i wedi bod yn y pwll nofio bore 'ma," **dywedodd** Elin yn **hapus** .



©BBC

3: Mae'n bwysig bod cymeriadau diddorol yn eich stori. Cyn cychwyn ysgrifennu stori, mae'n syniad da i feddwl am y cymeriadau'n ofalus. Darllenwch y rhestr yma a dewiswch y 4 peth mwyaf pwysig i'w cofio wrth ysgrifennu stori.

- ☑ Enw y cymeriad
- ☐ Lliw wal ystafell wely y cymeriad
- ☑ Ymddangosiad
- ☐ Lliw gwisg nofio
- ☑ Personoliaeth
- ☐ Enw y gath
- ☑ Gweithredoedd
- ☐ Deiet
- ☐ Hoff greision
- ☐ Dyddiad geni


©BBC